Cyngor Sgiliau'r Sector ar gyfer
Cemegau, Fferylleg, Niwclear, Olew a Nwy, Petroliwm a Pholymerau

www.cogent-ssc.com

Mae'r **Diwydiant Olew a Nwy** yn cynnwys:

- Echdynnu petroliwm crai a nwy naturiol
- Gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag echdynnu olew a nwy, ac eithrio tirfesur

Mae diwydiant Olew a Nwy y DU, a elwir hefyd yn sector "cynradd" (upstream), yn cynnwys chwilio am, echdynnu a phrosesu'n gychwynnol olew Môr y Gogledd a nwy (hydrocarbonau) o gwmpas y DU, ar y tir ac ar y môr. Canolbwynt gweithgareddau echdynnu olew a nwy yw'r glannau ger Aberdeen, Yr Alban. Cynhyrchir hydrocarbonau mewn ardaloedd eraill y DU, megis Môr y Gogledd deheuol, o lannau Humberside i Norfolk a Suffolk, ac ar y môr ym Mae Lerpwl a Bae Morecambe.

Mae ger y rhan fwyaf o safleoedd hyn ar y môr safleoedd glanio ar yr arfordir gerllaw lle mae'r hydrocarbonau yn cael eu pibellu i'w dosbarthu bellach ac i'w prosesu. Mae rhai'n dadlwytho o'r gweithiau ar y môr i danceri bach sy'n cludo'r nwyddau i amrywiaeth o derfynfeydd ar y tir, i'w hanfon ymlaen. Prif ardal cynhyrchu ar y tir yw Poole, Dorset, lle mae'r gronfa hydrocarbonau yn llythrennol o dan Harbwr Poole, ond maent yn cael eu cynhyrchu ar y tir gan ddefnyddio dull amgylcheddol derbyniol. Mae meysydd eraill, llai adnabyddus, ar y môr, gormod i'w henwi yma, ond fel enghraifft, yn Surrey, i'r de i Lundain.

Mae Ysgafell Gyfandirol y DU (UKCS) yn wynebau heriau sylweddol wrth i'r dalaith aeddfedu. Yn y dyfodol bydd ei allu i gystadlu'n dibynnu'n dyngedfennol ar wella perfformiad cyflym a pharhaol. Bydd hyn, yn ei dro, yn dibynnu ar gydweithio agosach i sicrhau y gellir cyflawni'r perfformiad hwn gyda'r adnoddau sydd ar gael. Mae gan y DU gronfeydd sylweddol o olew a nwy o hyd, sydd â'r potensial i fod yn fwy na'r hyn a gynhyrchir eisoes. Fodd bynnag, mae nifer o'r meysydd mawr a chynhyrchiol yn lleihau, ac mae darganfyddiadau newydd yn llai niferus ac yn llai o ran maint.

Darlun economaidd o'r Sector Olew a Nwy[1]

Diwydiant	Trosiant	Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC)[2]	GYC y gweithiwr
			Cyfartaledd
Cyfansymiau	**£35.17bn**	**£21.73bn**	**£725,667**

Manylion y diwydiant[3]

Cyfrifir y DU yn **11eg yn y byd** am gynhyrchu olew crai

Cynhyrchaeth cyfan y DU o olew crai ar y môr yw **70.07 miliwn tunnell fetrig**

Mae'r DU yn defnyddio **2 filiwn casgen o olew y dydd**

Cynhyrchaeth cyfan y DU o nwy naturiol yw **84.18 bn m³**

Cyfrannodd diwydiant olew a nwy y DU **13%** o Werth Ychwanegol Crynswth (GYC) holl ddiwydiannau cynhyrchu'r DU.

Gyda'i gilydd, diwallodd olew a nwy **75%** o alw sylfaenol y DU am ynni yn 2005.

[1]Ymchwiliad Busnes Blynyddol 2005 - data wedi'u rhyddhau Fis Tachwedd 2006, ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[2]GYC yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir a chost nwyddau crai ac eitemau mewnbwn eraill a ddefnyddir yn ystod y cynhyrchu
[3]Oil and Gas UK http://www.oilandgas.org.uk/index.cfm

Gweithlu'r Diwydiant Olew a Nwy[4]

Dosraniad y Gweithlu	
Nifer o Gyflogwyr [5]	500
Nifer o Weithwyr [5]	290,000 (cadwyn gyflenwi uniongyrchol)•
Oedran y gweithlu	
– 16-24	5%
– 25-34	22%
– 35-44	25%
– 45-54	30%
– 55+	18%
Ethnigrwydd	
– Gwyn	99%
– Heb fod yn wyn	1%
Rhyw	
– Benywaidd	21%
– Gwrywaidd	79%

Dosraniad galwedigaethau	
Rheolwyr ac Uwch Swyddogion	16%
Galwedigaethau Proffesiynol	24%
Proffesiynol a Thechnegol Cysylltiol	19%
Gweinyddol ac Ysgrifenyddol	13%
Galwedigaethau Crefftau Medrus	13%
Galwedigaethau Gwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid	1%
Gweithwyr Prosesau, Offer a Pheiriannau	11%
Galwedigaethau Elfennol	1%

* Y 2% dros ben mewn Galwedigaethau Gwasanaethau Personol

• Gall amcangyfrifon o'r diwydiant fod yn fwy na data gweithwyr yr Ymchwiliad Busnes Blynyddol oherwydd gweithlu contractwyr a chyfyngiadau SIC

Y Bwlch Sgiliau[5]

Y Bwlch Sgiliau yn y Diwydiant Olew a Nwy



Mae gorgyflenwad o bobl â chymwysterau S/NVQ level 1 ac yn is, o'i gymharu â nifer y swyddi yn y lefel hon yn y diwydiant Olew a Nwy.

Mae swyddi elfennol yn cynrychioli dim ond 1% o'r holl weithlu.

Mae 12% YN ORMOD o bobl â chymwysterau S/NVQ lefel 1 ac yn is.

Mae diffyg o bobl â chymwysterau S/NVQ level 2 a 3, o'i gymharu â chyfran y swyddi yn y lefelau hyn yn y Diwydiant Olew a Nwy.

Mae galwedigaethau lefel 2 a lefel 3 yn cynrychioli 57% o'r Diwydiant Olew a Nwy.

Mae DIFFYG o 17% o bobl â chymwysterau S/NVQ lefelau 2 a 3.

Rhestriad y Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC)[6]

Diwydiant Olew a Nwy Cogent yn ôl cod SIC:	11.10	11.20

[4]Arolwg o'r Gweithlu, Ionawr 2006 - Rhagfyr 2006
[5]Ffigurau Oil and Gas UK http://www.oilandgas.org.uk/index.cfm
[6]Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2003

Manylion Cyswllt

Cyfeiriad y swyddfa:
Cogent SSC Cyf, Uned 5,
Mandarin Court, Centre Park,
Warrington, Cheshire WA1 1GG

Cyfeiriad e-bost
research@cogent-ssc.com

Gwefan
www.cogent-ssc.com

O&G001

Mae'r data'n ddilys tan Fis Mehefin 2008